# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 313

Tachwedd 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Taro nodyn cerddorol tra'n Caru Nodyn

Nos Fercher, Tachwedd 12fed, ac roedd neuadd Ysgol Rhydypennau yn diasbedain gan seiniau miwsig piano. Dau bianydd ifanc dawnus dros ben oedd wrth yr offeryn. Lawnsio *Caru Nodyn*, (Gwasg Carreg Gwalch) nofel newydd Gareth William Jones, oedd yr achlysur.

Penderfynwyd lawnsio'r nofel yng nghyfarfod Adran yr Urdd yn yr ysgol am mai ar gyfer plant o wyth i un ar ddeg oed y mae hi wedi ei hysgrifennu. Yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar y llyfr ei hun fodd bynnag trowyd yr achlysur yn ddathliad o'r piano a rhoi cyfle i'r disgyblion glywed perfformwyr medrus yn tynnu'r gorau ohono.

Hanes merch fach o'r enw Shauna yw'r nofel, sydd yn gorfod mynd i gael gwersi piano bob wythnos ac sydd yn eu casáu nhw, ac yn casáu ymarfer hyd yn oed fwy. Yr unig air y gallai hi feddwl amdano i fynegi cymaint roedd hi'n casáu'r holl beth oedd *ychafiofnadwyaethus*. Yn ei gyflwyniad i'r plant esboniodd yr awdur ei fod yn gwybod yn iawn am y profiad hwnnw gan ei fod yntau, pan yn blentyn, wedi bod yn amharod i ufuddhau a cheisio meistroli'r nodau du a gwyn. Yn unol â phroffwydoliaeth ei fam bu'n edifar ganddo wedi hynny nad oedd wedi ymroi yn fwy parod, yn enwedig gan fod ei frawd wedi dyfalbarhau.

Ond bu Shauna'n fwy ffodus na'r awdur. Un diwrnod daeth Nodyn, cath ddu a gwyn ei hathrawes biano, yn rhan o'i bywyd a digwyddodd pethau rhyfedd iawn yn sgîl hynny. Heb ddatgelu unrhyw gyfrinach, erbyn diwedd y stori gallai Shauna chwarae'r Noctwrn Rhif 2 yn E Fflat gan Frederic Chopin.

Wrth drefnu'r cyfarfod lawnsio cafodd Gareth y syniad y byddai'n beth da cael plentyn tua'r un oed â darllenwyr y nofel i chwarae'r union Noctwrn honno yno. Ond ble roedd dechrau chwilio? Barn arbenigwyr dysgu cerdd oedd y byddai'n orchwyl amhosibl. Daliwyd ati fodd bynnag, ac o'r diwedd daethpwyd o hyd i bianydd ifanc o Lanrug yn Sir Gaernarfon, o'r enw Math Roberts.

Braint a chyfaredd i bawb a oedd yn y cyfarfod, yn oedolion a phlant, oedd clywed Math, ag yntau'n ddim mwy na naw mlwydd oedd, yn rhoi datganiad hyfedrus a sensitif o'r gwaith anodd hwn, a hynny gyda phurdeb a glendid diymffrost. Bu'n wefr yn wir.



Llun: Arvid Parry Jones

Math, James a Gareth William Jones yn y lansiad

Doedd cael rhyfeddu at dalent un pianydd ifanc ddim yn ddigon. Yn dilyn perfformiad Math, daeth James Hancock Evans, disgybl hŷn yn Ysgol Penweddig, at y piano gyda chennad i argyhoeddi'r plant nad yw chwarae'r piano yn *ychafiofnadwyaethus* ond yn hytrach y gall fod yn bleser mawr. I brofi hynny chwaraeodd ddetholiad o ddarnau llon, lleddf, jazz a chlasurol, e.e *In the Mood* Glenn Miller, Noctwrn Chopin yn F leiaf, cân Cruella de Ville, a chynnal sgwrs a chreu agosrwydd rhyngddo â'r plant yr un pryd — tipyn o gamp, yn enwedig i lanc ifanc, ond fe lwyddodd. Enynnodd ei ddull cyfeillgar a'i bersonoliaeth gynnes eu gwrandawiad astud.

Lawnsiad gwreiddiol ac awr o wledd gerddorol. Llwyddodd i dynnu sylw sicr at y llyfr ond gwnaeth gymaint yn fwy na hynny hefyd. Mae'n siwr y bydd athrawon piano yn yr ardal yn gweld newid er gwell yn agwedd eu disgyblion at eu gwersi o hyn ymlaen, a phwy ŵyr na fydd yno gynnydd yn nifer y disgyblion hefyd! .




Brodor o Fethesda, Dyffryn Ogwen yw Gareth William Jones, sydd bellach yn byw yn Bow-Street ers blynyddoedd mawr. Ei wythfed nofel i blant yw *Caru Nodyn*.

Bu'n athro drama yn Ysgol Sandfields Aberafan ac yn Ysgol Uwchradd Tregaron, yn gweithio i Lyfrgell Dyfed yn hybu darllen llyfrau plant, ac yn ddarlithydd drama yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau yn 2003 y dechreuodd ei yrfa fel awdur pan enillodd wobr yn Adran Gomisiynu'r Eisteddfod am ysgrifennu nofel i blant o 8 — 10 oed gydag anifail anwes yn ganolog iddi. *Anwesu Nodyn* oedd ei theitl yr adeg honno, ond penderfynodd wrth ei hail ddrafftio y byddai'r teitl *Caru Nodyn* yn apelio fwy at blant.

Hon yw ei wythfed nofel. Mae'r saith arall i gyd yn perthyn i gyfres *Mewnwr a Maswr*, (Gwasg Carreg Gwalch) sy'n dilyn hynt a helynt efeilliaid, Llion a Llyr, a'u cyfeillion, sydd i gyd yn dwlu ar rygbi. Cyhoeddwyd y gyntaf yn y gyfres, sef *Dau Ddewis* yn 2004, a'r chweched ohonyn nhw, *Ysbryd y Maswr*, ym mis Mai 2008. Mae'r seithfed ar y gweill i'w chyhoeddi yn 2009.